# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd Fideo Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Hydref 2020

Amser: 09.03 - 09.45

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at un newid i'r agenda ar gyfer heddiw – amseriad y datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cynnal trefn yn y Siambr hybrid**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod, yn dilyn anhrefn yn y Siambr yr wythnos diwethaf, wedi ysgrifennu at yr Aelod dan sylw yn dweud na fyddai'n cael ei alw i siarad nes iddi gael ymddiheuriad ffurfiol. Mae hyn yn gymwys i'r trafodion hynny sy'n destun disgresiwn y Cadeirydd o ran a ddylid galw Aelod i siarad ai peidio, ac felly byddai'r Aelod yn cael ei alw i ofyn Cwestiwn 5 i'r Prif Weinidog heddiw. Cafodd y Rheolwyr Busnes eu briffio ar y gweithdrefnau ar gyfer cynnal trefn a sut y byddai'r rhain yn gweithio mewn amgylchedd hybrid.

**Dethol gwelliannau**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod wedi gofyn i swyddogion roi arweiniad i'r Aelodau ynghylch dethol gwelliannau yn ystod cyfarfod llawn hybrid.

Gofynnodd y Trefnydd i'r Llywydd a ellid gwneud penderfyniadau ar ddethol yn gynharach yn yr wythnos, er mwyn helpu i baratoi ar gyfer dadleuon. Esboniodd y Llywydd ei bod yn gwneud synnwyr iddi wneud y penderfyniadau ar fore'r Cyfarfod Llawn pan fydd ganddi ddarlun llawnach o nifer y siaradwyr ac ati, ac y byddai'r

materion a godir mewn gwelliant, yn amlach na pheidio, yn cael eu codi yn y ddadl p'un a gaiff gwelliant ei ddethol ai peidio.

**Gwasanaethau Clyweledol (AV)**

Mae Jenny Rathbone wedi gofyn a allai ddangos deunydd clyweledol yn ystod y Ddadl Aelod ddydd Mercher. O ystyried yr anawsterau ymarferol, mae'r Llywydd wedi penderfynu na ellir defnyddio deunydd clyweledol mewn Cyfarfod Llawn hybrid na rhithwir.

**3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y ddau ddiweddariad i'r amserlen tair wythnos:

**Dydd Mawrth 20 Hydref 2020 -**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

### 3.4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau: dethol cynnig ar gyfer dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 21 Hydref:

**NNDM7427**

**Alun Davies**

**Rhun ap Iorwerth**

**Andrew RT Davies**

**Dai Lloyd**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil calonnau Cymru i wella'r canlyniadau i bobl sy'n dioddef ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai gosod dyletswydd ar:

a) Gweinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth i wella canlyniadau ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty a datblygu llwybrau goroesi ar gyfer y wlad gyfan;

b) awdurdodau lleol i gynllunio i sicrhau mynediad digonol at ddiffibrilwyr cymunedol ym mhob rhan o'u hardal;

c) Gweinidogion Cymru i sicrhau bod hyfforddiant mewn CPR yn cael ei ddarparu i bobl ledled Cymru;

d) byrddau iechyd i gydweithio i baratoi llwybr goroesi rhanbarthol ar gyfer ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty; ac

e) Gweinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar gynnydd eu strategaeth yn erbyn amcanion bob blwyddyn.

### 3.5 Amserlen Cwestiynau Llafar Ddiwygiedig

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r amserlen cwestiynau llafar, a chadarnhaodd y Trefnydd y bydd dogfen cyfrifoldebau Gweinidogol newydd ar gael yn ddiweddarach heddiw.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## Unrhyw Fater Arall

### Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 19 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 19 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

**Cyfarfod Llawn Hybrid**

Tynnodd y Llywydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y nodyn a ddosbarthwyd ganddi, yn amlinellu ei syniadau ar yr ystod o drefniadau y gellid eu rhoi ar waith ar gyfer cyfarfodydd llawn a gofynnodd iddynt drafod gyda'u grwpiau a dychwelyd at y mater yr wythnos nesaf.

**Seddi**

Dywedodd Darren Millar wrth y Rheolwyr Busnes fod Paul Davies wedi ysgrifennu at y Llywydd yn ffurfioli'r cais i Ganiatáu i Aelodau Ceidwadol ddefnyddio seddi yn y Siambr sy'n cael eu gadael yn wag gan Aelodau grwpiau eraill sy'n bresennol drwy gyswllt fideo.